Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Ein Harglwyddes

Ffordd Caernarfon
Bangor
Gwynedd
LL57 2UT

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Ein Harglwyddes

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Ein Harglwyddes |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori’r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 2T |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Catholig Rufeinig |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 152 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 125 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 12 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.7%) | 16.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 9.2%) | 8.8% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 57.8% |
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/04/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 24/11/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Ein Harglwyddes yn gymuned gynhwysol, sy'n rhoi pwyslais cryf ar les a datblygiad personol disgyblion. Mae gan yr uwch dîm arweinyddiaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n hyrwyddo profiadau dysgu diddorol mewn amgylchedd dysgu cefnogol a gofalgar. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ymddygiad da a pharodrwydd i ddysgu ymhlith disgyblion.

Mae arweinwyr yn cynnal gweithgareddau hunanwerthuso rheolaidd i fesur llwyddiant y gwelliannau, sy'n cynnwys cyfraniadau gan staff, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach. Mae'r rhain yn rhoi dealltwriaeth eang i arweinwyr o berfformiad cyffredinol yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw prosesau hunanwerthuso a blaenoriaethau gwella yn canolbwyntio'n ddigon cryf ar wella deilliannau disgyblion.

Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i sicrhau darpariaeth cwricwlwm eang a chytbwys. Mae'r staff ymroddgar yn canolbwyntio ar hyrwyddo dysgu a lles disgyblion yn bwrpasol. Maent yn gweithio'n ddiwyd gyda rhieni ac asiantaethau allanol ac yn gwybod yn dda beth yw anghenion y disgyblion a'u cymuned. Mae staff yn defnyddio'r amgylcheddau ystafell ddosbarth a'u hardal leol yn effeithiol i hyrwyddo cwricwlwm pwrpasol, ond nid yw'r adnoddau a'r cyfleoedd dysgu wedi'u datblygu'n ddigonol.

At ei gilydd, mae rhediad a llif y gwersi yn gweddu'n dda i anghenion dysgu disgyblion. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, lle mae diffyg cysondeb yn ansawdd yr addysgu a gydag adborth y rhan fwyaf o athrawon, nid yw athrawon yn herio disgyblion i gyflawni'r camau nesaf yn eu dysgu yn ddigon effeithiol.

Yn yr achosion gorau, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau'n bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn fodelau iaith medrus ac yn holi disgyblion yn dda. Mae hyn yn arwain at gynnydd da ym medrau siarad, darllen, rhifedd a digidol disgyblion. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd heriol i gymhwyso'u medrau ar lefelau priodol ar draws y cwricwlwm, yn enwedig eu medrau ysgrifennu estynedig.

Mae staff yn meithrin perthnasoedd gwaith agos â disgyblion. Maent yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau a theimladau yn synhwyrol, sy'n datblygu eu parch am bobl eraill yn llwyddiannus. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol effeithiol, sy'n creu ymwybyddiaeth dda o'u hardal leol a gwerthfawrogiad cryf o ddiwylliannau eraill.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Miniogi prosesau hunanwerthuso a blaenoriaethau gwella i ganolbwyntio'n uniongyrchol ar wella deilliannau disgyblion

A2. Sicrhau cysondeb mewn defnyddio arferion addysgu effeithiol, a darparu adborth buddiol i herio dysgu pob un o'r disgyblion

A3. Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau ar lefelau sy'n addas o heriol ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Ein Harglwyddes yn gymuned ddysgu gynhwysol a chefnogol. Mae arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, yn gosod cyfeiriad strategol pwrpasol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain, staff a disgyblion. Mae'r pennaeth yn gweithio'n dda gyda'r tîm arweinyddiaeth, y staff a'r llywodraethwyr i ddarparu cwricwlwm diddorol ar gyfer disgyblion. Mae hyn wedi'i seilio ar sicrhau profiadau dysgu difyr ar gyfer disgyblion ac arferion gofal a lles pwrpasol, sy'n cefnogi pob aelod o gymuned yr ysgol.

Mae'r tîm arweinyddiaeth yn ystyried ystod eang o dystiolaeth i nodi blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r blaenoriaethau hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth i wella lles a phrofiadau dysgu disgyblion. Mae athrawon, staff cymorth a llywodraethwyr yn cyfrannu at y prosesau gwerthuso yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rolau mewn gwella darpariaeth yr ysgol a'i pherfformiad dros gyfnod. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hunanwerthuso a'r blaenoriaethau gwella yn canolbwyntio'n ddigon miniog ar wella deilliannau disgyblion.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hyrwyddo a chefnogi dysgu proffesiynol staff. Maent yn rhannu syniadau ac yn mabwysiadu arferion gwerthfawr yn synhwyrol, sy'n cyfrannu'n bwrpasol at ethos ac athroniaeth yr ysgol fel sefydliad dysgu. Mae arweinwyr yn helpu staff i fyfyrio ac ystyried effaith dysgu proffesiynol ar ddysgu a lles disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, mae staff yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu agweddau penodol ar y cwricwlwm a'u harferion asesu, a threialu dulliau a syniadau newydd i gefnogi cynnydd a lles disgyblion.

Mae arweinwyr yn meithrin perthnasoedd effeithiol â rhieni. Mae sianelau cyfathrebu rheolaidd a chydweithrediad effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol yn hyrwyddo'r ysgol yn ei chymuned yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn gwybod yn dda beth yw anghenion y disgyblion a'u cymuned, ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rieni gefnogi lles a dysgu eu plant. Er enghraifft, mae staff yn cynnal sesiynau 'tyfu a dysgu gyda'n gilydd' gyda rhieni a disgyblion ar les emosiynol. Mae hyn yn cynorthwyo rhieni yn bwrpasol ac yn helpu datblygu dealltwriaeth o anghenion eu plant yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gweithio'n dda gyda'u cyfoedion ac yn gwrando'n astud ar athrawon yn ystod tasgau llythrennedd. Maent yn gofyn cwestiynau ystyriol ac yn cyfrannu'n synhwyrol at drafodaethau dosbarth. Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau llafaredd cryf, ac maent yn mynegi eu barn, trafod ffeithiau a mynegi eu teimladau yn hyderus. Mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg ac maent yn datblygu medrau cyfathrebu boddhaol. Maent yn ymdrechu i ddefnyddio'r

Gymraeg mewn gweithgareddau amrywiol ac yn cyfrannu'n addas at drafodaethau sylfaenol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen effeithiol. Maent yn ddarllenwyr brwdfrydig sy'n ymgysylltu'n sensitif â thestunau ac yn darllen â mynegiant. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ysgrifennu'n briodol at amrywiaeth o ddibenion. Maent yn ysgrifennu mewn gwahanol genres yn rheolaidd, ac mae llawer ohonynt yn dechrau gwella'u gwaith trwy arferion golygu ac ailddrafftio boddhaol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn herio disgyblion i ddefnyddio'u medrau ysgrifennu yn ddigon effeithiol wrth ymestyn eu hysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn cynllunio, yn paratoi offer ac yn cyflwyno tasgau mathemateg pwrpasol i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae athrawon a staff cymorth yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau rhifedd defnyddiol a phriodol. Yn ychwanegol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol. Mae hyn yn golygu bod llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau digidol yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd heriol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar lefelau priodol ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm diddorol sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol a'r byd ehangach yn fedrus, er enghraifft trwy ddysgu am Streic Fawr y Penrhyn ar droad yr ugeinfed ganrif a'r gymuned Gymraeg ym Mhatagonia. Yn ychwanegol, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd sensitif i ddisgyblion drafod materion pwysig, fel perthnasoedd ac amrywiaeth. Maent yn darparu profiadau difyr i ddisgyblion ddatblygu agweddau cadarnhaol at ymwybyddiaeth ysbrydol a materion moesol, sy'n effeithio ar eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos parch at bobl eraill ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o wahanol hunaniaethau yn llwyddiannus. Yn ychwanegol, mae cwricwlwm yr ysgol yn datblygu medrau creadigol ac artistig disgyblion yn effeithiol.

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu, ac mae'r perthnasoedd gwaith a'r parch rhwng staff a disgyblion yn gryf. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cydweithio â'u cyfoedion yn dda ac yn ystyried safbwyntiau pobl eraill yn synhwyrol. Maent yn gwrando'n ofalus ar athrawon ac yn ymfalchïo yn eu gwaith a'u cynnydd. Mae eu hymddygiad yn dda. Mae'r grwpiau arweinyddiaeth disgyblion yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol at fywyd bob dydd yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys yr 'Healthy Heroes' sy'n hyrwyddo ffyrdd cadarnhaol o fyw ymhlith eu cyfoedion a'r 'Mini Vinnies' sy'n casglu nwyddau ar gyfer banc bwyd y gadeirlan leol.

Mae athrawon yn esbonio tasgau yn glir ac yn cynorthwyo disgyblion i gyfrannu o'u gwirfodd at eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn sicrhau bod gwersi'n llifo'n

effeithiol a bod y dysgu'n symud ymlaen ar gyflymdra da. Maent yn defnyddio ystod o adnoddau effeithiol i gefnogi dysgu'r disgyblion, ac mae athrawon yn cydweithio'n dda â staff cymorth i ddarparu cymorth pwrpasol ar gyfer disgyblion. Yn yr arferion addysgu a dysgu gorau, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dechrau gwersi'n brydlon, ac mae'r rhan fwyaf o athrawon a staff cymorth yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i hyrwyddo dyfalbarhad ymhlith disgyblion. Mae hyn yn ennyn ac yn cynnal diddordeb llawer o ddisgyblion yn eu dysgu, ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw adborth athrawon yn arwain at y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon cyson ac effeithiol.

Mae staff yn defnyddio'r amgylcheddau dysgu dan do yn dda i annog llwyddiant a brwdfrydedd ymhlith disgyblion. Mae hyn yn hyrwyddo dysgu a lles disgyblion yn llwyddiannus, ac o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid yw'r adnoddau a'r cyfleoedd yn yr awyr agored ar gyfer disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae staff yn defnyddio'r ardal leol i hyrwyddo cwricwlwm pwrpasol yn effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad i amrywiaeth o ardaloedd dysgu tawel ac ysgogol, yn cynnwys mannau ymyrraeth defnyddiol. Mae staff yn defnyddio'r mannau hyn sydd wedi'u cynllunio'n ofalus yn effeithiol i gefnogi dysgu'r disgyblion a mynd i'r afael â'u hanghenion unigol. Mae'r ardaloedd cymorth hyn yn meithrin lles disgyblion yn llwyddiannus trwy ddarparu man ymdawelu ar gyfer disgyblion gorbryderus cyn iddynt ddychwelyd i'w gwersi.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/01/2026